

Adroddiad cynnydd Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru

Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (1/10/2018) – Eitem 5

| | | | | |
|----------------------------------|------------------|---------------------------|-------------|-------------------------------------|
| Statws: Coch / Melyn / Gwyrdd | Llwyd: Cwblhawyd | Gwyrdd: Ar y trywydd iawn | Melyn: Oedi | Coch: Oedi sylweddol neu risg uchel |
|----------------------------------|------------------|---------------------------|-------------|-------------------------------------|

Noder: Mae'r tair blaenoriaeth bellach wedi newid i adlewyrchu'r gofyniad brys i gwblhau gwaith 'paratoi ar gyfer diwrnod cyntaf' Brexit.

| Datblygu Polisi Gweithredol | Y sefyllfa bresennol | Cynnydd ers y cyfarfod diwethaf (16/05/2018) | Yr hyn i'w wneud cyn y cyfarfod nesaf | Dyddiad Gorffen Disgwyliedig | Statws |
|--|--|--|--|--|---|
| <p>*Blaenoriaeth 1 – Tystysgrifau Allforio Ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, bydd angen tystysgrif allforio i allforio cynnyrch y DU i Ewrop. Creu system ar-lein ar gyfer cynhyrchu tystysgrifau allforio er mwyn sicrhau y gallwn barhau i allforio cynnyrch pysgodfeydd i'r UE. Mae parhau i fasnachu ag Ewrop yn hanfodol i gynaliadwyedd y diwydiant yng Nghymru yn y dyfodol. Arweinydd: James Watkins James.Watkins@gov.wales</p> | <ul style="list-style-type: none"> Hanfodol: Gan dybio y bydd y DU yn drydedd wlad pan fydd yn gadael Ewrop. Rhaid i system fod ar waith ar y diwrnod cyntaf er mwyn sicrhau y gellir parhau i allforio i Ewrop. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Sefydliad Rheoli Morol a Marine Scotland i ddatblygu system tystysgrifau allforio electronig er mwyn paratoi ar gyfer y diwrnod cyntaf. | <ul style="list-style-type: none"> Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Sefydliad Rheoli Morol a Marine Scotland i ddatblygu system tystysgrifau allforio electronig er mwyn paratoi ar gyfer y diwrnod cyntaf. | <ul style="list-style-type: none"> Gweler adran 12 o'r adroddiad ar weithrediadau | Diwedd mis Mawrth 2019 | <p>MELYN</p> <p>Mae'r prosiect ar y trywydd iawn ond, o ystyried pwysigrwydd y gwaith hwn i hwyluso masnach a'r terfynau amser sydd ynghlwm wrtho, bydd yn heriol.</p> |
| <p>*Blaenoriaeth 2 – adroddiadau dalfeydd o dan 10m – Gwellar ffordd y caiff data eu casglu gan y fflyd dan 2m yng Nghymru er mwyn gwella'r gallu i reoli pysgodfeydd a rhoi cyfleoedd i bysgota. Bydd tystysgrifau allforio yn dibynnu ar gyflwyno data ar ddalfeydd</p> | <ul style="list-style-type: none"> Hanfodol – Bydd tystysgrifau allforio yn dibynnu ar wybodaeth gywir ac amserol am ddalfeydd. Brys i ddechrau gwario cyllid rheoli a gorfodi o Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. | <ul style="list-style-type: none"> Mae ymarfer caffael OJEU llawn ar waith i sicrhau'r dechnoleg sy'n ofynnol ar gyfer y prosiect Mae gwaith deddfwriaethol i gyflwyno offerynnau statudol er mwyn rhoi cynigion ar waith yn mynd rhagddo Caniatâd gan Ysgrifennydd | <ul style="list-style-type: none"> Bydd y tendr caffael yn weithredol. Gweithdai anffurfiol i randdeiliaid wedi'u cwblhau Bydd yr ymgynghoriad ffurfiol yn weithredol | Disgwyilir i'r prosiect gael ei gyflwyno'n llawn erbyn 2019. | <p>GWYRDD</p> <p>Mae'r prosiect ar y trywydd iawn</p> |

Adroddiad cynnydd Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru

Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (1/10/2018) – Eitem 5

| | | | | | |
|--|---|--|--|---|--|
| <p>yn electronig. Bydd ystadegau cywir a chyfredol ar gofnodi dalfeydd yn helpu i sicrhau y ceir y budd mwyaf o gyfleoedd i bysgota yng Nghymru. Bydd defnyddio system fonitro cychod y glannau, ynghyd â chofnodi dalfeydd cychod dan 10m, yn helpu i sicrhau statws amgylcheddol da stociau pysgodfeydd yng Nghymru o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol</p> <p>Arweinydd: Tim Croucher Tim.croucher@gov.wales</p> | | <p>y Cabinet i fwrw ymlaen â'r cynigion</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae gweithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'u trefnu ar gyfer canol mis Hydref. | | | |
| <p>*Blaenoriaeth 3 – System fonitro cychod y glannau Gwella dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r fflyd yn gweithio yng Nghymru a datblygu set ddata gadarn i ddangos ardaloedd lle mae gweithgarwch pysgota. Sicrhau bod ardaloedd lle mae gweithgarwch pysgota yn Nyfroedd Cymru yn cael eu cydnabod a'u hystyried yn briodol yn unol â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Bydd defnyddio system fonitro cychod y glannau, ynghyd â chofnodi dalfeydd cychod dan 10m, yn helpu i sicrhau statws amgylcheddol da stociau pysgodfeydd yng Nghymru o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth</p> | <ul style="list-style-type: none"> Brys i ddechrau gwario cyllid rheoli a gorfodi o Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. | <ul style="list-style-type: none"> Mae ymarfer caffael OJEU llawn ar waith i sicrhau'r dechnoleg sy'n ofynnol ar gyfer y prosiect Mae gwaith deddfwriaethol i gyflwyno offerynnau statudol er mwyn rhoi cynigion ar waith yn mynd rhagddo Caniatâd gan Ysgrifennydd y Cabinet i fwrw ymlaen â'r cynigion Mae gweithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'u trefnu ar gyfer canol mis Hydref. | <ul style="list-style-type: none"> Bydd y tendr caffael yn weithredol. Gweithdai anffurfiol i randdeiliaid wedi'u cwblhau Bydd yr ymgynghoriad ffurfiol yn weithredol | <p>Disgwylir i'r prosiect gael ei gyflwyno'n llawn i'r fflyd erbyn diwedd 2019.</p> | <p>GWYRDD</p> <p>Mae'r prosiect ar y trywydd iawn</p> |

Adroddiad cynnydd Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru

Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (1/10/2018) – Eitem 5

| | | | | | |
|--|--|--|--|--|--|
| <p>Forol</p> <p>Arweinydd: Tim Croucher Tim.croucher@gov.wales</p> | | | | | |
|--|--|--|--|--|--|

Adroddiad cynnydd Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru

Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (1/10/2018) – Eitem 5

| Datblygu Polisi Gweithredol | Y sefyllfa bresennol | Cynnydd ers y cyfarfod diwethaf (16/05/2018) | Yr hyn i'w wneud cyn y cyfarfod nesaf | Dyddiad Gorffen Disgwyliedig | Statws |
|---|---|--|---|--|--|
| <p>Blaenoriaeth 4 – Cregyn moch – Datblygu mesurau newydd i reoli pysgodfeydd cregyn moch Cymru yn fwy effeithiol ac mewn ffordd gynaliadwy, a'u rhoi ar waith</p> <p>Arweinydd: Leanne Llewellyn Leanne.Llewellyn@gov.wales</p> | <ul style="list-style-type: none"> Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda chyfreithwyr i ddrafftio'r offeryn statudol gan ddilyn dull gweithredu fesul cam sy'n canolbwyntio ar fesurau craidd; bydd y rhai y mae angen trwyddedau hyblyg arnynt yn cael eu cynnwys ar ail gam. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud mor gyflym â phosibl er mwyn diogelu'r stoc. | <ul style="list-style-type: none"> Dyfarnwyd contract caffael er mwyn pennu'r ffiniau ar gyfer Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf llai ym Mae Abertawe Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder wedi'i gwblhau ac mae'n aros am gymeradwyaeth gyfreithiol. Polisiau rheoli terfynol wedi'u sefydlu. | <ul style="list-style-type: none"> Nodyn briffio i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn amlinellu'r opsiynau o ran offeryn statudol ar gyfer cregyn moch ar ffurf dull gweithredu fesul cam a cheisio caniatâd i gyfreithwyr symud ymlaen i'r cam drafftio. | Yr hydref 2018 | <p>COCH</p> <p>Mae pwysau gwaith sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE wedi arwain at oedi yn y broses o ddrafftio offeryn statudol; bydd mesurau trwyddedu hyblyg bellach yn cael eu cyflwyno ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.</p> |
| <p>Cregyn bylchog – Datblygu mesurau newydd i reoli pysgodfa cregyn bylchog Bae Ceredigion yn fwy cynaliadwy, a'u rhoi ar waith.</p> <p>Arweinydd: Colin Charman Ar secondiad o CNC</p> | <ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ganlyniadau'r ymgynghoriad cyntaf ar lusgrwydo cregyn bylchog yn un o ardaloedd ychwanegol Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion ym mis Hydref 2016. Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen ar gregyn bylchog er mwyn datblygu trwyddedau hyblyg i sicrhau y caiff pysgodfeydd eu rheoli'n ofalus. Cyfarfu'r grŵp ddiwethaf ar 12.09.2017. Rydym yn gweithio i bennu'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol ar gyfer | <ul style="list-style-type: none"> Rydym yn aros am gyngor cynhwysfawr ar y cyfrwng deddfwriaethol gorau i gyflwyno'r adnoddau trwyddedu hyblyg sydd eu hangen. | <ul style="list-style-type: none"> Cytuno ar y cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol i gyflwyno mesurau trwyddedu hyblyg. Sicrhau'r adnoddau i roi'r mesurau trwyddedu hyblyg sydd eu hangen ar waith cyn gynted â phosibl. Yn amodol ar yr uchod, byddwn yn datblygu cynllun cyflawni ac yn trefnu i'r grŵp gorchwyl a gorffen gyfarfod eto er mwyn bwrw ymlaen â'r ffrwd waith hon. | Byddwn yn cyhoeddi dyddiad gorffen ar ôl cytuno ar y cynllun cyflawni. | <p>COCH</p> <p>Mae pwysau gwaith sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE ar bolisi a gwasanaethau cymorth mewnol wedi oedi'r ffrwd waith hon yn sylweddol.</p> |

Adroddiad cynnydd Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru

Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (1/10/2018) – Eitem 5

| | | | | | |
|--|---|--|--|--|--|
| | cyflwyno'r mesurau trwyddedu hyblyg a nodwyd gan y grŵp i reoli'r bysgodfa. | | | | |
|--|---|--|--|--|--|

Adroddiad cynnydd Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru

Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (1/10/2018) – Eitem 5

| Datblygu Polisi Gweithredol | Y sefyllfa bresennol | Cynnydd ers y cyfarfod diwethaf (16/05/2018) | Yr hyn i'w wneud cyn y cyfarfod nesaf | Dyddiad Gorffen Disgwyliedig | Statws |
|---|--|--|--|------------------------------|---|
| <p>Cynllun Rheoli Cocos – Gwella'r ffordd y caiff cocos eu rheoli yng Nghymru.</p> <p>Arweinydd: Mark Tilling Mark.Tilling@gov.wales</p> | <ul style="list-style-type: none"> Rydym yn aros am ganlyniad cyngor cyfreithiol arbenigol mewn perthynas â'r cynigion â blaenoriaeth sy'n rhan o'r cam cyflawni cyntaf (proses gwneud cais newydd, cymhwysedd, sifftiau euogfarnau blaenorol, hyfforddiant, gwiriadau person cymwys a phriodol. Mae angen cynnal ymgynghoriad terfynol ynghylch yr uchod cyn cyflawni | <ul style="list-style-type: none"> Dogfen yn ceisio cyngor cyfreithiol arbenigol wedi'i chwblhau – yn aros am y canlyniad Cytundebau Rhannu Data ar waith ag awdurdodau lleol er mwyn gallu rhannu data ar drwyddedau at ddibenion iechyd bwyd. Bydd hyn hefyd yn ategu dull gwneud cais cyfunol y trefniadau rheoli cocos newydd Adroddiad drafft ar y Model Trothwy ar gyfer Ecosystem – wedi'i anfon at bobl er mwyn iddynt roi sylwadau arno. | <ul style="list-style-type: none"> Ymgynghoriad terfynol yn mynd rhagddo Yn amodol ar gyngor cyfreithiol arbenigol Dogfen derfynol ar gyfer y Model Trothwy ar gyfer Ecosystem wedi dod i law a chael ei chymeradwyo – wedi cytuno ar y camau nesaf Cyfarfodydd â phrosesyddion wedi'u cwblhau Cyfarfod o dîm diwygiedig y prosiect a'r bwrdd wedi'i gynnal | Chwarter 1 – 2019 | <p>MELYN</p> <p>Bu oedi yn y ffrwd waith hon pan oedd yn rhaid i'r rheolwr prosiect gynorthwyo yn y broses o agor Pysgodfa Gocos y Tair Afon.</p> |
| <p>Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop – Agor Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yn llawn a chyfrannu at y gwaith o gyflawni prosiectau i sicrhau bod y Gronfa yn cael ei dyrannu'n llawn yng Nghymru er mwyn cefnogi diwydiant ffyniannus a chynaliadwy yn barod am ymadael â'r UE.</p> <p>Arweinydd – Bethan Jones</p> | <ul style="list-style-type: none"> Agorodd Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yn llawn ym mis Ionawr 2017. Y gyllideb graidd, heb gynnwys y gyllideb statudol a ddyrannwyd at ddibenion casglu a rheoli data a gorfodi, yw £9.9m. Ar 01/09/18, roedd 48 o geisiadau llawn wedi dod i law, a chyfanswm y ceisiadau am grant oedd tua | <ul style="list-style-type: none"> Bu oedi yn y broses arfarnu a arweiniodd at ôl-groniad. Mae'r broblem hon wedi cael ei datrys bellach drwy neilltuo adnoddau ychwanegol a fydd yn canolbwyntio ar gynnal a chwblhau'r arfarniadau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i bennu cwmpas cynllun costau wedi'i symleiddio ar gyfer UP1. Os canfyddir ei fod yn opsiwn | <ul style="list-style-type: none"> Eglurhad i gael ei roi sy'n esbonio'r hawl i addasu cewyll yn hytrach na'u newid os mai hynny yw dewis yr ymgeisydd. WEDI'I GWBLHAU. Hyrwyddo'r cynlluniau i fusnesau a rhanddeiliaid yn barhaus fel y mae adnoddau'n caniatáu er mwyn ceisio sicrhau bod mwy yn defnyddio'r grant. PARHAUS. | DD/G | <p>COCH</p> <p>Ar 01/09/18, roedd 48 o geisiadau llawn wedi dod i law, a chyfanswm y ceisiadau am grant oedd tua £15,120,860. Mae 20 o geisiadau (y mae wyth ohonynt yn geisiadau FLAG) wedi cael eu cymeradwyo, sydd â chyfanswm gwerth grant o</p> |

Adroddiad cynnydd Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru

Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (1/10/2018) – Eitem 5

| <p>Bethan.Jones6@gov.wales</p> | <p>£15,120,860. Mae 20 o geisiadau (y mae wyth ohonynt yn geisiadau FLAG) wedi cael eu cymeradwyo, gyda chyfanswm gwerth grant o £5,027,008. Ar sail y gwaith ymgynghori â'r diwydiant, a lywiodd raglen Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, a'r nifer isel a ddefnyddiodd fesur cyfatebol Cronfa Pysgodfeydd Ewrop 20-8, nid yw mesur newid motor Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop wedi cael ei roi ar waith yng Nghymru.</p> | <p>dichonadwy, y bwriad yw iddo fod ar gael i ymgeiswyr ym mis Ionawr 2019</p> | <ul style="list-style-type: none"> Mae'r gyfradd troi amlinelliad prosiect yn gais llawn yn isel ar hyn o bryd, er bod cymorth ar gael gan y Cynllun Cyngorwyr Datblygu Busnes Pysgodfeydd. Mae angen gweld beth yw'r rhwystrau i gyflwyno cais llawn a nodi pa gymorth ychwanegol sydd ei angen (os o gwbl). Mynd ati i annog y diwydiant i ymateb yn gyflym i unrhyw ymholiadau y mae'r Uned Rheoli Cynlluniau yn eu gwneud yn ystod y cam arfarnu er mwyn cyflawni'n gyflymach. | | <p>£5,027,008</p> |
|---|--|--|--|---|---|
| <p>Datblygu Polisi Gweithredol</p> | <p>Y sefyllfa bresennol</p> | <p>Cynnydd ers y cyfarfod diwethaf (16/05/2018)</p> | <p>Yr hyn i'w wneud cyn y cyfarfod nesaf</p> | <p>Dyddiad Gorffen Disgwyliedig</p> | <p>Statws</p> |
| <p>Cosbau gweinyddol penodedig – Datblygu a diweddarau'r system bresennol.</p> <p>Arweinydd – Colin Charman Ar secondiad i Lywodraeth Cymru o CNC</p> | <ul style="list-style-type: none"> Amcanion: <ul style="list-style-type: none"> cynnig opsiynau amgen nad ydynt yn cynnwys achos llys ar gyfer mân droseddau ei gwneud yn bosibl rhoi cosbau yn gyflymach lleihau costau ac ansicrwydd i bysgotwyr sicrhau dull gweithredu cyson | <ul style="list-style-type: none"> Gwaith wedi'i oedi am fod arweinydd gwreiddiol y prosiect wedi gadael yr is-adran; mae Colin Charman wedi cymryd ei le. Dogfen ymgynghori ddrafft, Asesiad Effaith Rheoleiddiol a systemau talu yn aros i gael eu cymeradwyo. | <ul style="list-style-type: none"> Adolygu'r sefyllfa bresennol gyda chyfreithwyr, economegwyr a'r tîm cyllid cyn cytuno ar amserlenni a bwrw ymlaen â'r ymgynghoriad cyn gynted â phosibl. | <ul style="list-style-type: none"> Y bwriad gwreiddiol oedd iddynt ddod i rym yn ystod gaeaf 2018/19; byddwn yn anelu at y dyddiad gorffen | <p>MELYN</p> <p>Mae'r gwaith hwn wedi cael ei oedi am fod arweinydd y prosiect wedi gadael yr is-adran; mae arweinydd prosiect newydd wedi cael ei benodi.</p> |

Adroddiad cynnydd Grŵp Cyngtori ar Bysgodfeydd Môr Cymru

Grŵp Cyngtori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (1/10/2018) – Eitem 5

| | | | | | |
|--|--|--|--|------------|--|
| | <ul style="list-style-type: none"> Mae gan Gymru bwerau eisoes i roi cosbau gweinyddol penodedig fel opsiwn amgen yn lle achos llys ar gyfer troseddau sy'n ymwneud â'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Rydym yn bwriadu ymestyn y cynnig hwn i gynnwys troseddau domestig a chynyddu uchafswm y ddirwy a ganiateir ar gyfer troseddau lluosog. Mae dogfennau ymgynghori, asesiadau effaith rheoleiddiol a systemau / opsiynau talu yn cael eu datblygu. | | | hwn o hyd. | |
|--|--|--|--|------------|--|

| Datblygu Polisi Gweithredol | Y sefyllfa bresennol | Cynnydd ers y cyfarfod diwethaf (16/05/18) | Yr hyn i'w wneud cyn y cyfarfod nesaf | Dyddiad Gorffen Disgwyliedig | Statws |
|--|---|---|--|---|---|
| <p>Asesu pysgodfeydd Cymru</p> <p>Arweinydd – Michelle Billing Michelle.billing@gov.wales</p> | <ul style="list-style-type: none"> CNC yn cynnal 64 o asesiadau mamaliaid morol; y nod yw eu cwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd 2018 a'u rhannu â Llywodraeth Cymru ac asiantaethau trawsffiniol er mwyn iddynt wneud sylwadau arnynt cyn eu cyhoeddi. Sicrhau ansawdd yr asesiadau am y tro olaf cyn cyhoeddi pob un o'r 64 ohonynt ar wefannau | <ul style="list-style-type: none"> Gwaith yn araf oherwydd newidiadau staff yn CNC (arbenigwyr yn y sector). Disgwylir i ddau aelod newydd o staff fod yn eu swyddi erbyn diwedd hydref 2018, a bydd un yn dechrau yn ei swydd ganol mis Medi. MA yn ceisio caniatâd i fwrw ymlaen â'r ffrydiau gwaith er mwyn mynd i'r afael â'r asesiadau porffor (risg | <ul style="list-style-type: none"> Caiff 64 o asesiadau mamaliaid eu cyhoeddi ar wefannau Llywodraeth Cymru a CNC ym mis Rhagfyr 2018 yn hytrach na mis Ebrill 2018. Caiff yr holl asesiadau eraill eu cynnal dros y ddwy flynedd nesaf fel rhan o'r prosiect sy'n mynd rhagddo. | <ul style="list-style-type: none"> Diwedd mis Ebrill 2018 ar gyfer cwblhau 64 o asesiadau mamaliaid. | <p>MELYN</p> <p>Mae rheolwr y prosiect wedi dechrau adolygu'r opsiynau ar gyfer gweithredu polisi mewn perthynas â'r anghenion rheoli a nodwyd o'r gweithgareddau porffor yn yr asesiad.</p> |

Adroddiad cynnydd Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru

Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (1/10/2018) – Eitem 5

| | | | | | |
|--|--|---|---|--|--|
| | Llywodraeth Cymru a CNC ym mis Rhagfyr 2018. | uchel) – cafodd hyn ei glirio ym mis Mehefin 2018. <ul style="list-style-type: none">• Mae cynnig rheoli sy'n ystyried yr opsiynau ar gyfer mesurau rheoli ychwanegol yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd – fersiwn derfynol mis Hydref 2018 | <ul style="list-style-type: none">• Bydd y swp nesaf o asesiadau'n ymwneud â physgota â chewyll.• Fersiwn derfynol o'r cynnig rheoli wedi cael ei ddrafftio – Hydref 2018. | | |
|--|--|---|---|--|--|

Adroddiad cynnydd Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru

Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (1/10/2018) – Eitem 5

Bydd y Grŵp yn cadw golwg ar y canlynol:

| Pysgodfeydd Datblygol | Y Sefyllfa Bresennol | Cynnydd ers y cyfarfod diwethaf (16/05/2018) | Yr hyn i'w wneud cyn y cyfarfod nesaf | Dyddiad Gorffen Disgwyliedig |
|--|---|--|---|--------------------------------|
| Gwrachod y môr Arweinydd – Phil Marshall Phil.Marshall@gov.wales | <ul style="list-style-type: none"> Mae gweithgarwch dal rhywogaethau gwyllt a'r galw posibl gan y sector dyframaethu yn cael eu hasesu ar hyn o bryd. Yn 2017, ni phrynwyd unrhyw wrachod y môr byw o Gymru er mwyn darparu 'pysgod glanach' i'r diwydiant ffermio eog yn yr Alban. Mae'n annhebygol iawn y bydd unrhyw wrachod y môr gwyllt yn cael eu cymryd eleni (2018). | <ul style="list-style-type: none"> Mae trafodaethau â'r diwydiant dyframaethu yn parhau; mae dyddiad cyfarfod dros dro wedi cael ei aildrefnu cyn mis Tachwedd 2018. | <ul style="list-style-type: none"> Gan ddibynnu ar lefel y gweithgarwch a chynlluniau busnes y diwydiant ffermio eog, ystyried datblygu Cod Ymarfer. | 2020 |
| Pysgodfa Cyllyll Môr Arweinydd – Greta Hughes Greta.Hughes@gov.wales | <ul style="list-style-type: none"> Dim cyfyngiadau ar hyn o bryd heblaw am gau pysgodfa'r gogledd (traethau Llanfairfechan a Phenmaenmawr). | <ul style="list-style-type: none"> Cyflwynwyd adroddiad sy'n asesu methodolegau posibl ar gyfer asesu'r stoc o gyllyll môr ledled Cymru a llywio unrhyw gynllun gweithredu dilynol – gweler eitem 9(iii). Arolwg rhynglanwol peilot wedi'i gwblhau yn Llanfairfechan. Cynhaliwyd treialon halltu wedi'i dargedu fel ffordd o gael gafael ar gyllyll môr. Nodwyd tair rhywogaeth cyllyll môr. | <ul style="list-style-type: none"> Ystyried canfyddiadau'r adroddiad i ddatblygu cynllun arolwg peilot ar gyfer Llanfairfechan. Cwblhau adroddiad ar yr arolwg rhynglanwol peilot Ystyried pa mor briodol yw'r Maint Glanio Lleiaf ar gyfer cyllyll môr o ran y tair rhywogaeth a nodwyd. Ystyried technegau arolygu isarforol priodol. | Gaeaf 2018 Dechrau Haf 2019 |

Adroddiad cynnydd Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru

Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (1/10/2018) – Eitem 5

Meysydd Datblygu Polisi Posibl yn y Dyfodol

Mae aelodau'r grŵp wedi codi'r eitemau isod fel problemau, ac mae swyddogion polisi wedi ychwanegu atynt er mwyn datblygu polisi yn y dyfodol.

Pan fydd y blaenoriaethau polisi presennol wedi cael eu cwblhau, gofynnir i'r aelodau pa rai o'r eitemau canlynol y dylid rhoi sylw iddynt. Noder bod tystysgrifau dal pysgod, adroddiadau o dan 10m, system fonitro cychod y glannau (blaenoriaethau 1-3 uchod) a chimychiaid wyog (y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin) i gyd yn ffrydiau gwaith gweithredol ers y cyfarfod diwethaf.

| Problem / Rhywogaeth | Amcan | Sut y byddai'r gwaith hwn yn cyflawni ein hamcanion rheoli cynaliadwy? | Amserlen a blaenoriaeth (Pa mor bwysig yw'r gwaith?) | Sylwadau Llywodraeth Cymru |
|--|--|--|--|--|
| 1. Pysgota / Genweirio Hamdden | Mae rhywogaethau a gaiff eu dal a'u glanio yn cael eu cofnodi a'u cyfrif mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r diwygiadau arfaethedig i'r rheoliadau sy'n ymwneud â phrynu a gwerthu: | Ac eithrio rhoi trwyddedau ar gyfer cewyll, nid oes ffordd o reoli na ffordd effeithiol o fonitro'r rhywogaethau a gaiff eu dal a'u glanio na'r dull a ddefnyddir i'w dal. Mae'r ddeddfwriaeth Prynwyr a Gwerthwyr yn deillio o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. O ganlyniad, mae wedi'i chyfyngu i gychod neu longau pysgota drwy ehangu pwerau Gweinidogion Cymru i gynnwys pob pysgodfa yng Nghymru o dan y ddeddfwriaeth Prynwyr a Gwerthwyr. Byddai gan reolwyr pysgodfeydd y data sy'n angenrheidiol i lywio egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. | Aneglur | Angen rhagor o wybodaeth cyn datblygu polisi. |
| 2. Rheoli pysgodfeydd aber Afon Dyfrdwy | <ul style="list-style-type: none"> Adolygu is-ddeddfau aber Afon Dyfrdwy. Nodi'r prif bysgodfeydd o fewn yr aber, gan gynnwys dulliau pysgota. Deall gwasgariad daearyddol, maint a graddfa gweithrediadau pysgota o fewn yr aber. | Mae'r is-ddeddfau presennol wedi dyddio. Mae angen eu hadolygu i sicrhau bod gweithrediadau pysgota sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd yn gynaliadwy. Bydd hyn yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor pysgodfeydd yn yr ardal yn unol â gofynion Deddf Llesiant | Bydd adolygiad cychwynnol o gyflwr presennol y bysgodfa yn nodi'r flaenoriaeth a gaiff ei rhoi i'r darn o waith hwn. | Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod y ffordd y caiff yr ardal hon ei rheoli yn y dyfodol gyda sefydliadau eraill sy'n ymwneud â'r ardal (y Sefydliad Rheoli Morol, Awdurdod Pysgodfeydd a Chadwraeth Glannau Gogledd-orllewin Lloegr, Asiantaeth yr Amgylchedd, CNC). |

Adroddiad cynnydd Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru

Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (1/10/2018) – Eitem 5

| | | | | |
|--|--|---|--|--|
| | <ul style="list-style-type: none">• Ystyried rhyngweithiadau rhwng gweithrediadau pysgota gwahanol a'r rhyngweithio rhwng ffin Cymru/Lloegr. | Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae is-ddeddfau ar ochr Lloegr i'r aber yn cael eu hystyried hefyd ar gyfer yr adolygiad. Bydd angen i hyn gael ei ystyried er mwyn sicrhau bod is-ddeddfau'n gyson â'i gilydd ac nad yw diwydiant Cymru dan anfantais. | | |
|--|--|---|--|--|